SAV£ XMAS

Canllaw cyflym i dalu am y Nadolig

OFFICE OF FAIR TRADING

Collodd llawer o bobl arian pan ddiddymwyd Farepak.

Os ydych yn un o'r bobl hynny sydd am roi ychydig o arian o'r neilltu bob wythnos fel y bydd gennych ddigon i gael yr hyn sydd ei angen arnoch adeg y Nadolig, mae cryn dipyn o opsiynau ar gael.

Efallai y byddwch am rwystro'ch hun rhag cael gafael ar eich arian cyn y Nadolig. Efallai y byddai'n well gennych gael talebau nag arian parod. Ac efallai y byddwch am i'r arian gael ei gasglu o'ch cartref.

Defnyddiwch y daflen hon i benderfynu beth fydd yn gweithio i chi.

Mae'r tabl isod yn eich galluogi i gymharu rhai o'r gwahanol opsiynau.

I ddysgu sut y gallwch ddechrau defnyddio un o'r ffyrdd hyn o dalu am y Nadolig, mae rhagor o wybodaeth ar gefn y daflen neu gallwch ffonio Cyswllt Defnyddwyr Cymru ar **08454 04 05 05**.

	A fyddaf yn cael llog ar fy arian?	A fyddaf yn cael bonws?	A yw'n anodd codi'r arian cyn y Nadolig?	A fyddant yn casglu'r arian o'm cartref?	A oes unrhyw ddiogelwch os bydd y cynllun yn methu?	A yw'n bosibl cael talebau?	A yw'n rhyddhau'r arian ychydig cyn y Nadolig?	A oes rhaid i mi brynu o siop benodol neu gan gyflenwr penodol?
Cyfrif cynilo banc neu gymdeithas adeiladu safonol	✓	Weithiau	Gyda rhai cyfrifon, rhaid i chi roi rhybudd i godi'ch arian neu byddwch yn colli llog		✓*		Eich penderfyniad chi yw pryd i godi'ch arian	
Cyfrif Nadolig arbennig cymdeithas adeiladu	✓	✓	Efallai y byddwch yn colli'r bonws a bydd yn rhaid i chi gau'r cyfrif		✓*		Mae'r rhan fwyaf yn gwneud	
Cyfrif cynilo undeb credyd	Efallai y cewch ddifidend	Weithiau			✓†		Eich penderfyniad chi yw pryd i godi'ch arian	
Cyfrif cynilion Nadolig arbennig undeb credyd	Efallai y cewch ddifidend	Weithiau	Efallai y byddwch yn colli'r difidend neu'r bonws a bydd yn rhaid i chi gau'r cyfrif		✓†	Mae gan rai gynlluniau talebau	✓	
Cynlluniau hamperau a thalebau Nadolig		✓	✓	✓	Mae gan gwmnïau sy'n aelod o'r Gymdeithas Rhagdaliadau Nadolig drefniadau ar waith i ddiogelu eich arian. Gofynnwch am lefel y diogelwch cyn i chi eu defnyddio	✓	✓	
Clwb Nadolig Swyddfa'r Post ® (gyda Bank of Ireland)		Bydd cynilwyr yn cael llyfryn o gynigion arbennig y gellir ei ddefnyddio gyda phartneriaid manwerthu dethol	✓		Os bydd Bank of Ireland yn mynd yn fethdalwr, mae'n annhebygol y cewch eich holl arian yn ôl	Gallwch ddewis talebau anrheg 'One4All' neu e-gerdyn (fel cerdyn credyd rhagdaledig)	✓	Mae rhestr o bartneriaid manwerthu sydd wedi cofrestru i dderbyn y cerdyn fel dull talu neu dalebau anrheg 'One4All' y gellir eu gwario mewn nifer o siopau'r stryd fawr
Clybiau Nadolig gyda siopau lleol (fel cigyddion, y siop gornel a siopau teganau)			✓		Os yw'r siop yn cau neu'n mynd yn fethdalwr, mae'n annhebygol y cewch yr holl arian yn ôl		✓	✓
Cynllun hamper gan eich dyn llaeth		✓	✓	✓	Os yw'r cwmni'n mynd yn fethdalwr, mae'n annhebygol y cewch yr holl arian yn ôl	✓	✓	✓
Cynlluniau stampiau archfarchnadoedd ar gyfer y Nadolig		✓	✓		Os yw'r cwmni'n mynd yn fethdalwr, mae'n annhebygol y cewch yr holl arian yn ôl		✓	✓

* Os yw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu'n mynd yn fethdalwr, efallai y cewch iawndal gan Gynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol (FSCS), hyd at uchafswm o £35,000. Mae nifer o amodau ac eithriadau sy'n gymwys i unrhyw iawndal y gallech ei gael gan FSCS. Am fanylion, ewch i wefan FSCS yn www.fscs.org.uk

Noder nad yw Clwb Nadolig Swyddfa'r Post wedi ei ddiogelu gan Gynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol

† Os yw'r undeb credyd yn mynd yn fethdalwr, efallai y cewch iawndal gan Gynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol (FSCS), hyd at uchafswm o £35,000 (yng Nghymru, Lloegr a'r Alban). Mae nifer o amodau ac eithriadau sy'n gymwys i unrhyw iawndal y gallech ei gael gan FSCS. Am fanylion, ewch i wefan FSCS yn www.fscs.org.uk

Ar gyfer undebau credyd yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch â'r Gofrestrfa Cwmnïau yn www.detini.gov.uk

Gwybodaeth bellach

Mae Cyswllt Defnyddwyr Cymru yn cynnig gwasanaeth cynghori i ddefnyddwyr dros y ffôn ac ar-lein a ariennir gan y llywodraeth ac a reolir gan y Swyddfa Masnachu Teg. Mae'n gweithredu mewn partneriaeth â Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol i gynnig cyngor a gwybodaeth glir, ymarferol a diduedd i ddefnyddwyr.

cyswllt defnyddwyr cymru
www.cyswlltdefnyddwyr.gov.uk
08454 04 05 05
cyngor clir ac ymarferol i ddefnyddwyr
cyllidwyd gan llywodraeth

I gael rhagor o wybodaeth am undebau credyd, cysylltwch â Chymdeithas Undebau Credyd Prydain (ABCUL) ar 0161 832 3694 neu yn www.abcul.org, neu cysylltwch â Chynghrair Undebau Credyd yr Alban ar 0141 774 5020 neu yn www.scottishcu.org

Er mwyn cymharu gwahanol gyfrifon cynilo banciau a chymdeithasau adeiladu, ewch i wefan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn www.moneymadeclear.fsa.gov.uk

Gall y Ganolfan Cyngor ar Bopeth hefyd eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau o dalu am y Nadolig – edrychwch yn y llyfr ffôn i ddod o hyd i'ch cangen agosaf.

Gall Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol hefyd eich helpu – edrychwch yn y llyfr ffôn i ddod o hyd i'ch swyddfa safonau masnach agosaf neu ewch i www.tradingstandards.gov.uk

I gael gwybodaeth am derfynau iawndal ar gyfer banciau a chymdeithasau adeiladu yn y DU ac undebau credyd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban cysylltwch â Chynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol ar 020 7892 7300. Ar gyfer undebau credyd yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch â'r Gofrestrfa Cwmnïau ar 0845 604 8888. Mae'r Gofrestrfa Cwmnïau yn rhan o'r Adran dros Fenter, Masnach a Buddsoddi.

Ffoniwch **0800 389 3158** i gael rhagor o gopïau o'r daflen hon neu i ofyn am fformat gwahanol.

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Masnachu Teg
Argraffwyd yn y DU ar bapur wedi'i ailgylchu 50% o leiaf
Cod cynnyrch OFT924w
Argraffiad 08/08
(h) Hawlfraint y Goron 2008